

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod: 30 Ionawr 2018

Aelod Arweiniol/ Swyddog: Cynghorydd Mark Young /
Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Cyfreithiol ac
AD

Awdur yr Adroddiad: Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Teitl: Aelodau Sy'n Gefnogwyr

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Gofynnir i'r Cyngor ystyried ail-benodi cynghorwyr i bedwar rôl 'aelod sy'n gefnogwr'.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Bu i'r Cyngor blaenorol osod y fframwaith ar gyfer aelodau sy'n gefnogwyr a phenodi cynghorydd i bob rôl. Dim ond dau o'r cynghorwyr a benodwyd sydd dal yn aelodau o'r cyngor sir, ac yn dilyn etholiadau'r cyngor ym mis Mai diwethaf, mae'n briodol i weld safbwyntiau'r Cyngor ar aelodau sy'n gefnogwyr.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried gwybodaeth yn yr adroddiad hwn a:

- (i) Cadarnhau bod rolau'r cefnogwyr ar gyfer Pobl Hŷn, Digartrefedd, Gofalwyr ac Anableddau Dysgu yn cael eu cadw; a
- (ii) Ystyried unrhyw enwebiadau a gyflwynwyd gan y cynghorwyr i benodi i'r rolau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Adran 19 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi ar hyn o bryd pedwar rôl Cefnogwr. Y rhain yw:

- Cefnogwr Pobl Hŷn
- Cefnogwr Digartrefedd
- Cefnogwr Gofalwyr
- Cefnogwr Anableddau Dysgu

4.2 Ym mis Tachwedd 2012, penderfynodd y Cyngor bod y pedwar rôl Cefnogwr a nodir uchod yn cael eu penodi a bod disgrifiadau rôl yn cael eu datblygu i arwain y cefnogwyr hyn (wedi'i atodi yn Atodiad 1). Mi wnaeth y Cyngor blaenorol y penodiadau canlynol:

- Cefnogwr Pobl Hyn – y Cynghorydd Bobby Feeley
- Cefnogwr Gofalwyr – y Cynghorydd Ann Davies
- Cefnogwr Anableddau Dysgu – y Cynghorydd Ray Bartley
- Cefnogwr Digartrefedd – y Cynghorydd Bill Tasker

4.3 Mae rôl Cefnogwyr yn yr awdurdod hwn wedi datblygu o'r un penodiad 'Cefnogwr Pobl Hŷn' a oedd yn deillio o'r canllaw yn y Strategaeth i Bobl Hŷn a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cymru, y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru gael Cefnogwr o'r fath. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried yn 2013 i argymhell i gael rhagor o rolau Cefnogwyr, ac mae cofnodion trafodaeth y Pwyllgor wedi'u hatodi er gwybodaeth fel Atodiad 2. Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu peidio ag argymhell creu rhagor o gefnogwyr. Fodd bynnag, gellir ychwanegu rolau 'cefnogwr' ychwanegol i bortffolio aelodau Cabinet, megis Cefnogwr y Lluoedd Arfog (Cynghorydd Mainon) neu'n cael ei gyfeirio'n gyffredinol fel rhan o ddyletswyddau'r aelod arweiniol. **Byddai Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (Cynghorydd Irving) yn cyflawni'r rôl Cefnogwr Archwilio pan fo angen.**

4.4 Mae'r holl gynghorwyr wedi cael gwybodaeth am y 4 rôl ac wedi'u gwahodd i fynegi diddordeb os hoffent gael eu penodi gyda CV byr. Bydd y rhai hynny a fydd yn dod i law yn cael eu dosbarthu i'r aelodau cyn cyfarfod o'r Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cynllun Corfforaethol 2017-2022 yn cynnwys blaenoriaethau penodol i bobl ifanc a thai a digartrefedd, a chamau gweithredu i gefnogi pobl hŷn a gofalwyr o fewn ei flaenoriaeth cymunedau gwydn. Bydd ail-benodi aelodau sy'n gefnogwyr yn cyflawni'r rolau a amlinellir yn y disgrifiadau rôl yn cynorthwyo amcanion y Cyngor i gefnogi'r meysydd hyn.

6. Faint fydd yn costio a sut bydd yn effeithio ar y gwasanaethau eraill?

Mae costau teithio achlysurol yn codi os yw aelod sy'n gefnogwr yn mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i'w rôl fel cefnogwr. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol a ddyrennir i deithio aelodau, ac os oes angen, cynhالياeth.

7. Beth yw'r prif ganlyniadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer y penodiadau hyn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflawni gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Yn ystod tymor diwethaf y Cyngor, roedd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried rolau'r cefnogwyr. Mae pob aelod wedi cael gwybodaeth am y rolau ac wedi'u gwahodd i gyflwyno enwebiadau a CV i'r Cyngor eu hystyried. Y Cyngor fydd yn penderfynu i ail-benodi aelodau sy'n gefnogwyr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae effaith ariannol o ail-benodi cynghorwyr i rolau aelod sy'n gefnogwr yn ddibwys ac yn debygol o fod yn gyfyngedig i fodloni costau teithio a chynhالياeth a gyflawnir yn y rolau yn achlysurol.

10. Pa risgiau sydd yn bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dull y Cyngor blaenorol oedd gwneud penodiadau i'r 4 rôl allweddol gan leihau'r risg y byddai creu rôl cefnogwr yn arwain at ddryswch o ran dyletswyddau, atebolrwydd a phwerau aelodau'r Cabinet a'r gweithgareddau sydd yn wahanol i aelodau sy'n gefnogwyr.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae Adran 19 a 19.6 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu'r rolau a swyddogaethau'r cynghorwyr, ac yn caniatáu enwebiad cynghorwyr fel cefnogwyr ar gyfer y 4 rôl a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn.